**Swydd-ddisgrifiad Athro Dosbarth Prif Raddfa Gyflog**
Mae'r swydd hon yn ddarostyngedig i'r amodau cyflogaeth presennol ar gyfer athrawon sydd yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, Deddf Addysg 1997, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, deddfwriaeth addysg gyfredol arall ac erthyglau llywodraethu'r ysgol.
Gellir newid y swydd-ddisgrifiad hon ar unrhyw adeg yn dilyn trafodaeth rhwng y pennaeth a'r aelod o staff, a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

**Meysydd cyfrifoldeb a thasgau allweddol:**

**Cynllunio, Addysgu a Rheoli Dosbarth**
**Addysgu disgyblion a ddyrennir iddynt drwy gynllunio eu dysgu i sicrhau dilyniant dysgu drwy:**

- Nodi amcanion addysgu clir a phennu sut y byddant yn cael eu haddysgu a'u hasesu;
- Gosod tasgau sy'n herio disgyblion, yn sicrhau lefelau uchel o ddiddordeb ac sy'n hwyl;
- Gosod disgwyliadau priodol a heriol;
- Gosod targedau clir, gan adeiladu ar gyrhaeddiad blaenorol;
- Adnabod pa ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan gynnwys y rhai Mwy Abl a Thalentog a gwahaniaethu'n briodol;
- Sicrhau bod cynllunio'n digwydd ar gyfer disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel bod ganddynt fynediad i'r cwricwlwm a phob agwedd ar fywyd ysgol;
- Darparu strwythurau clir ar gyfer gwersi gan gynnal cyflymder, cymhelliant a her.
- Gwneud defnydd effeithiol o asesu a sicrhau bod y cwricwlwm presennol yn cael sylw llawn;
- Sicrhau addysgu effeithiol a'r defnydd gorau o'r amser sydd ar gael;
- Monitro ac ymyrryd er mwyn sicrhau dysgu ac ymddygiad cadarn yn seiliedig ar egwyddorion a strategaethau Ymarfer Adferol;

**Defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu er mwyn:**
- cyfateb y dull i'r cynnwys, strwythuro gwybodaeth, cyflwyno set o syniadau allweddol a defnyddio geirfa briodol;
- defnyddio cwestiynu effeithiol, gwrando'n astud ar ddisgyblion, rhoi sylw i wallau a chamdybiaethau;
- dewis adnoddau dysgu priodol a datblygu sgiliau astudio drwy lythrennedd, rhifedd, gallu digidol a ffynonellau eraill;
- sicrhau bod disgyblion yn ennill a meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n briodol i'r pwnc sy'n cael ei addysgu;
- gwerthuso eu haddysgu eu hunain yn feirniadol er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol;
- rheoli a chefnogi oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth;

**Monitro, Asesu, Cofnodi, Adrodd**
- Asesu pa mor dda y mae'r amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddiant wedi'u cyflawni a'u defnyddio i wella agweddau penodol ar addysgu a dysgu;
- Monitro gwaith disgyblion a gosod targedau ar gyfer cynnydd gan ddefnyddio'r polisi y mae'r ysgol wedi cytuno arno at gyfer asesu a rhoi adborth i ddysgwyr;
- Asesu a chofnodi datblygiad disgyblion yn systematig yn unol â Pholisi Asesu'r ysgol. Cadw cofnodion i sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddeall a'i gwblhau, monitro cryfderau a meysydd i'w datblygu, cyfrannu at y broses gynllunio a chydnabod y lefel y mae'r disgybl yn cyflawni arno;
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau sy'n rhoi gwybodaeth i rieni.

**Fel Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad / Rhan o Dîm Maes Dysgu a Phrofiad / arweinydd canol**
Yn ogystal â gofynion athro dosbarth, meysydd cyfrifoldeb a thasgau allweddol:
- Cyfeiriad Strategol a Datblygiad y Pwnc/maes – gyda chefnogaeth, a than arweiniad, y pennaeth a'r uwch dîm arwain:

- Datblygu a gweithredu polisïau ac arferion sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i gyflawniad uchel drwy addysgu a dysgu effeithiol;
- Bod â brwdfrydedd dros y pwnc/maes dysgu sy'n ysgogi ac yn cefnogi staff eraill ac yn annog dealltwriaeth pawb o'r cyfraniad y gall y pwnc ei wneud i bob agwedd ar fywydau disgyblion;
- Defnyddio data ysgol, lleol a chenedlaethol perthnasol i osod targedau i unigolion a grwpiau o ddisgyblion ar gyfer datblygu a gwella ymhellach;
- Datblygu cynlluniau ar gyfer y pwnc sy'n nodi targedau, amserlenni a meini prawf llwyddiant clir ar gyfer ei ddatblygu a/neu ei gynnal, yn unol â chynllun datblygu'r ysgol;
- Monitro cynnydd a gwerthuso'r effeithiau ar addysgu a dysgu drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr, gan ddadansoddi gwaith a chanlyniadau;
- Cwblhau gwerthusiad parhaus o'r maes a bod yn gyfrifol am ddatblygu'r maes rydych yn ei arwain.

**Addysgu a Dysgu**

- Sicrhau parhad a dilyniant yn y maes dysgu drwy gefnogi cydweithwyr wrth ddewis y dilyniant priodol o addysgu a dulliau addysgu a gosod amcanion dysgu clir drwy gynllun gwaith cytunedig, sydd wedi'i ddatblygu yn unol â chynllun datblygu'r ysgol;
- Gwerthuso sut mae'r pwnc yn cael ei addysgu drwy fonitro'r cynllunio, craffu ar waith disgyblion, siarad â dysgwyr, teithiau dysgu, asesiad athro/awes o'r dysgu a nodi arfer gorau, meysydd i'w datblygu i wella addysgu a dysgu a chodi safonau;
- Datblygu cysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol gan gynnwys rhieni, busnes a diwydiant;

**Defnyddio Adnoddau yn Effeithiol**

- Cefnogi'r pennaeth drwy reoli a threfnu adnoddau dysgu yn effeithlon ac effeithiol, a thrwy ddatblygu neu nodi adnoddau newydd gan gynnwys cymwysiadau TGCh yn y pwnc;
- Cefnogi'r pennaeth drwy reoli'r gwariant ar y pwnc yn effeithlon ac effeithiol;

**Gofynion Proffesiynol Eraill**

- Meddu ar wybodaeth ymarferol o safonau proffesiynol athrawon a'u rhwymedigaethau cyfreithiol;
- Dilyn y cod ymddygiad a nodir gan Gyngor y Gweithlu Addysg;
- Gweithredu bob amser o fewn y polisïau a'r arferion a nodwyd gan yr ysgol;
- Sefydlu cydberthnasau gwaith effeithiol a gosod esiampl dda drwy eu hymddangosiad a'u hymddygiad personol a phroffesiynol;
- Ymdrechu i roi cyfle i bob plentyn wireddu ei botensial a chyrraedd disgwyliadau uchel;
- Cyfrannu at fywyd yr ysgol drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd a systemau rheoli sy'n angenrheidiol i gydlynu'r gwaith o reoli'r ysgol yn effeithiol;
- Cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad a'u dyletswyddau proffesiynol eu hunain mewn perthynas â pholisïau ac arferion yr ysgol;
- Cysylltu'n effeithiol â rhieni a llywodraethwyr;
- Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a allai gael eu pennu o bryd i'w gilydd;
- Bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau a'r rôl o ran Amddiffyn Plant, Diogelu, Iechyd a Diogelwch a Diogelu Data ym mywyd beunyddiol yr ysgol;
- Helpu cydweithwyr i greu amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer addysgu a dysgu'r pwnc;
- Ymrwymiad i bresenoldeb a phrydlondeb rhagorol.